**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

17 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn

**Gwaddol y Pwyllgor Cyllid – proses y gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd yn gofyn am farn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch proses y gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth.

Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr, ac roedd yn falch o'r cyfle i gyfrannu at drafodaeth y Pwyllgor o broses y gyllideb. Fel yr amlinellwyd yn eich llythyr, mae dau faes gwahanol o graffu ariannol ar gyfer Pwyllgorau – craffu ar y gyllideb yn gyffredinol a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth. Trafododd y Pwyllgor y ddau faes hyn yn seiliedig ar y cwestiynau penodol yn eich llythyr. Roedd gan y Pwyllgor hefyd nifer o bryderon cyffredinol ac roedd o'r farn mai da o beth fyddai eu bwydo i waddol y Pwyllgor Cyllid.

**Effeithiolrwydd y dull cyffredinol o graffu ar y gyllideb**

Prif bryder y Pwyllgor mewn perthynas â phroses y gyllideb yw bod angen i'r amser sydd ar gael i graffu ar y gyllideb gael ei reoli'n fwy effeithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r amser cyfyngedig rhwng yr adeg y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod y gyllideb ddrafft a'r dyddiadau cau ar gyfer Pwyllgorau i gyfrannu i'r broses.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Er mwyn i graffu fod yn effeithiol, mae angen i Bwyllgorau ganolbwyntio ar graffu ar y gyllideb mewn ffordd fwy dwys. Fodd bynnag, yr arfer sydd ohoni yw bod busnes y Cynulliad yn parhau yn ôl yr arfer, a all olygu nad oes digon o sylw yn cael ei roi ar graffu ar y gyllideb. Gellid ystyried newid y ffordd y mae'r Cynulliad yn trefnu ei fusnes yn ystod y cyfnod y Gyllideb, gan gynnwys defnyddio slotiau busnes gwahanol neu ychwanegol ar gyfer craffu ar y gyllideb.

Mae hefyd yn bryder y gall fod yn bosibl nad oes gan y Cynulliad y sgiliau angenrheidiol i graffu'n effeithiol ar y gyllideb. I fod yn effeithiol, mae angen i Bwyllgorau newid i feddylfryd ariannol a dylent fedru galw ar gymorth arbenigol yn ystod cyfnod y gyllideb.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod cyfnod y Gyllideb i'w groesawu mewn egwyddor ac yn ffordd ddefnyddiol o gynyddu capasiti'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae amser yn brin ac mae adnoddau rhanddeiliaid yn cael eu rhoi dan bwysau cynyddol oherwydd cyfyngiadau ariannol. Yn y dyfodol, efallai na fydd gan randdeiliaid y capasiti i gyfrannu'n llawn at y broses o graffu ar y gyllideb. Mae hwn yn fater y dylai'r Cynulliad ei gadw mewn cof wrth iddo ystyried trefniadau ar gyfer craffu ar y gyllideb yn y dyfodol.

**Effeithiolrwydd craffu ariannol ar ddeddfwriaeth**

Bu craffu ariannol ar Filiau yn anodd, gan fod y wybodaeth a geir yn y Memorandwm Esboniadol yn aml yn gymhleth ac yn aneglur iawn. Felly, mae wedi bod yn anodd i'r Pwyllgor graffu ar oblygiadau ariannol y Biliau yn ddigon manwl.

I gynorthwyo'r gwaith o graffu'n ariannol ar Filiau, dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu templed clir ar gyfer Memoranda Esboniadol, yn nodi'n fanwl y wybodaeth ariannol sydd ei hangen. Mae'r Pwyllgor yn deall bod Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd wedi argymell defnyddio templed o'r fath.

Mae'r Pwyllgor yn nodi Argymhelliad 3 o Adroddiad y Fforwm Cadeiryddion: Gwaddol Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad y *"gallai pwyllgorau fod yn fwy pendant wrth sicrhau bod deddfwriaeth yn "addas i'r diben" drwy anfon Biliau yn ôl at Lywodraeth Cymru os nad oes digon o feddwl y tu cefn iddynt neu os yw'n amlwg nad ydynt yn barod"*. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â hyn mewn egwyddor ac

yn credu y dylai Pwyllgorau fod yn fwy cadarn wrth fynnu gwybodaeth ariannol glir a digonol i gynorthwyo yn y broses graffu.

**Craffu ariannol cyffredinol gan Bwyllgorau**

Roedd cytundeb y dylai Pwyllgorau gynnal rhagor o graffu ariannol manylach yn ystod y flwyddyn, ond mae angen i hynny gael mwy o ffocws.  Dylai pwyllgorau ymgorffori craffu ariannol yn eu gwaith, fel bod dyraniadau'r gyllideb yn destun proses graffu yn y lle cyntaf ac yna, yn hwyr yn y cylch cyllideb, bod y canlyniadau a'r gwariant yn destun craffu.  Nid oes digon yn cael ei wneud ar yr olaf o'r uchod.

I gloi, mae'r Pwyllgor o'r farn bod craffu ar y gyllideb gan bwyllgorau wedi gwella yn ystod y Cynulliad hwn.  Fodd bynnag, mae lle i wella eto, ac rydym yn gobeithio y bydd adroddiad gwaddol y Pwyllgor Cyllid yn gosod y sylfaen ar gyfer y gwaith hwnnw.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
Cadeirydd